

Ffurflen Hunanarfarnu ar gyfer diogelu ac Amddiffyn Plant

Ysgol: Ysgol Gyfun Gŵyr 2020-21

Awdurdod Lleol: Abertawe

Dylai'r pennaeth drefnu bod ymatebion yn cael eu rhoi ar gyfer y cwestiynau canlynol, gan nodi cryfderau penodol neu feysydd i'w gwella sy'n ofynnol ym mhob adran. Bydd arolygwyr yn trafod y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gyda staff perthnasol yn ystod yr arolygiad. Bydd fersiwn electronig y ffurflen yn ymestyn i roi lle i destun yr ymatebion. Mae lle ychwanegol ar dudalen olaf y ffurflen i roi rhagor o wybodaeth. Mae'n **rhaid** i'r ffurflen hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan y sawl sy'n darparu'r cofnodion gwreiddiol.

A oes polisi amddiffyn plant sy'n adlewyrchu'r model yng Nghylchlythyr 5/2008 trwy gynnwys adrannau ar:

- atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael eu cynnig i ddysgwyr;
- gweithdrefnau ar gyfer nodi a rhoi gwybod am achosion, neu achosion tybiedig, o gam-drin; a
- chymorth i ddysgwyr a all fod wedi cael eu cam-drin?

A yw polisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn?

Tystiolaeth

- Mae polisi'r ysgol yn adlewyrchu'r uchod.
- Mae cyfleoedd yn cael eu darparu mewn sesiynau bugeiliol, cyfweiliadau bugeiliol i godi unrhyw bryderon personol, neu yn ymwneud â ffrindiau.
- Mae disgyblion yn cael eu hannog i drafod eu problemau, a phroblemau ffrindiau yn gyson drwy gyfweiliadau gyda'r Tiwtor Dosbarth, amrywiol themâu yn y gwersi, sesiynau ABCh a gwasanaethau blwyddyn.
- Fe wneir defnydd o staff penodol i drafod gyda disgyblion am faterion penodol.
- Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r drefn ar sut i adrodd yn dilyn datgeliad gan ddisgybl.
- Bydd myfyrwyr sydd wedi dioddef cam driniaeth yn cael eu cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol ar gyfer cefnogaeth bellach – asiantaethau cefnogaeth sirol ac ehangach, cwnselydd ysgol.
- Fe adolygir y polisi a'r gweithdrefn yn flynyddol.

Disgrifiwch y trefniadau ar gyfer gwiriadau manylion adnabod a chymwysterau cyn cyflogi. A oes cofnod bod gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT)/ Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) gan yr holl staff a benodwyd ar ôl 2002? A oes cofnod o'r llywodraethwyr hynny sydd â gwiriadau y SCT/GDG? A oes gan y gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol ac nad ydynt yn cael eu goruchwyllo wiriadau cyfredol y SCT/GDG? A oes asesiad risg priodol i reoli'r penderfyniad ynglŷn â pha lywodraethwr neu wirfoddolwr sy'n cael y gwiriad GDG ac pha rai sydd ddim?

Tystiolaeth

- Fe apwyntir staff yr ysgol yn unol â Pholisi Recriwtio yr Awdurdod Lleol.
- Mae pob aelod o staff wedi derbyn gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) / Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Fe gedwir copi cyfredol gan fyrsar yr ysgol. Mae'r byrsar hefyd yn gyfrifol am fonitro pryd mae angen diweddarau rhain gan y staff.
- Yn ôl cyfarwyddiadau sirol, nid oes angen i lywodraethwyr nad ydynt yn ymwneud â disgyblion mewn sefyllfa un-i-un feddu ar wiriad GDG.
- Ni chaniateir i unrhyw berson, boed yn aelod o'r staff, llywodraethwr neu wirfoddolwr, weithredu ar dir yr ysgol mewn sefyllfa un-i-un gyda disgybl oni bai bod ganddo/ganddi wiriad SCT/GDG.
- Mae aelod o staff o'r ysgol sydd wedi derbyn gwiriad SCT/GDG yn bresennol pan mae gwirfoddolwyr neu ymwelwyr achlysurol i'r ysgol yn gweithio / darparu sesiynau i'r disgyblion.

Rhowch fanylion yr Uwch Athro Dynodedig (a'r dirprwy lle bo'n briodol) a'r Llywodraethwr Dynodedig. A yw staff yn gwybod pwy yw'r rhain?

Tystiolaeth

- Uwch Athro Dynodedig –Rhodri Evans, Athro Hŷn.
- Dirprwy Uwch Athro Dynodedig –Sara Thomas, Athrawes Hŷn.
- Fe atgoffir staff yr ysgol o'r bobl ddynodedig uchod yn flynyddol mewn sesiynau HMS. Fe gynhwysir y Polisi Amddiffyn Plant (sy'n cynnwys crynodeb o gamau gweithredu'r ysgol ynghylch honiad o gamdriniaeth gan ddisgybl) yn y Llawlyfr Staff a ddsberthir yn flynyddol ymysg yr holl staff.
- Llywodraethwr Dynodedig: - Miss Aldyth Williams, Cadeirydd.

Sut ydych yn sicrhau bod staff:

- yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth;
- yn gwybod beth i'w wneud pan fyddant wedi gweld camdriniaeth gan staff eraill yn yr ysgol;
- yn gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth?
- yn gwneud i blant deimlo'u bod yn cael eu hannog a'u bod yn ddiogel i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt;
- yn gwybod sut i gyfeirio datgeliadau a/neu honiadau o gamdriniaeth sy'n digwydd (a) yn yr ysgol a (b) yn y cartref neu'r tu hwnt i'r darparwr;
- yn hysbysu'r tîm gwasanaethau lleol:-
 - i) os yw disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd; ac
 - ii) os yw plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb esboniad o'r ysgol am gyfnod o fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos);
- yn gwybod beth i'w wneud os oes honiad yn erbyn y pennaeth;
- yn cynnal cyfrinachedd ac yn cadw cofnodion yn ddiogel; ac
- yn ymwybodol o beidio â chysylltu â rhieni pe byddai hynny'n peri risg i'r plentyn?

Tystiolaeth

- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ar bolisïau amddiffyn plant yr Awdurdod Lleol pob tair mlynedd. Mae'r hyfforddiant yma yn cael ei ddarparu gan Swyddog Diogelu'r Awdurdod Lleol. Mae'r hyfforddiant yn rhoi arweiniad clir i'r staff i fod yn effro i arwyddion o gam drin.
- Mae pob aelod o staff, yn unol â chanllawiau yr Awdurdod Lleol, wedi derbyn llyfryn canllawiau'r sir ar ddiogelu plant. Yn ogystal, mae Polisi Amddiffyn Plant yr ysgol yn cynnwys arweiniad clir ar y camau gweithredu ynghylch digwyddiad diogelu plant.
- Mae pob aelod o staff yn glir at bw y dylent adrodd unrhyw honiadau diogelu plant a dylid defnyddio *MyConcern* i wneud hynny.
- Mae pob aelod o staff yn glir am eu rôl yn gwneud i blant deimlo'u bod yn cael eu hannog a'u bod yn ddiogel i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt
- Fe atgoffir staff yn flynyddol, mewn HMS ar ddechrau pob blwyddyn, o'r camau diogelu perthnasol sydd angen eu cymryd i gyfeirio datgeliadau/honiadau o gamdriniaeth yng nghyd-destun a) yr ysgol, b) y cartref neu tu hwnt.
- Cyfrifoldeb y staff dynodedig (neu'r pennaeth) yw i gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol lleol os yw disgybl i) ar y gofrestr diogelu plant yn cael ei wahardd, neu ii) yn absennol am gyfnod o fwy na dau ddiwrnod (neu un yn dilyn penwythnos). Mae rhestr gan y swyddog presenoldeb i adrodd yn syth am absenoldeb unrhyw ddisgyblion sydd ar y gofrestr diogelu plant.
- Os oes honiad yn cael ei wneud yn erbyn y pennaeth, mae'r staff yn ymwybodol y dylent gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr yn syth.
- Fe gedwir cofnodion o ddigwyddiadau diogelu plant gan yr athrawon dynodedig. Mae'r wybodaeth yma yn cael eu cadw'n ddiogel i sicrhau cyfrinachedd. Fe rennir gwybodaeth am bob cyfeiriad gyda Lisa Collins—Swyddog Diogelu'r Sir.
- Mae'r staff, ac yn arbennig yr Uwch Athro Dynodedig a'i ddirprwy, yn llwyr ymwybodol na ddylir cysylltu gyda rhieni plentyn pe byddai hynny'n peri risg i'r plentyn – yn hytrach fe gysylltir â'r asiantaethau perthnasol – y Gwasanaethau Cymdeithasol; yr Heddlu; Adran / Swyddog Diogelu'r Sir.

A yw'r holl staff a gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant sylfaenol ac a yw hwn yn cael ei gynnal yn gyfredol trwy hyfforddiant adnewyddu, er enghraifft yn unol ag arfer orau sydd wedi'i diffinio gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant?

A yw'r staff dynodedig wedi cael hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaeth ac a yw hwn yn cael ei gynnal yn gyfredol trwy hyfforddiant adnewyddu, er enghraifft yn unol ag arfer orau sydd wedi'i diffinio gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant?

A yw staff dros dro a gwirfoddolwyr yn cael gwybod am y polisi a'r gweithdrefnau amddiffyn plant?

A yw staff sy'n newydd i'r ysgol ac athrawon newydd gymhwyso yn cael gwybod am y polisi a'r gweithdrefnau amddiffyn plant?

Tystiolaeth

- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant yr Awdurdod Lleol pob tair mlynedd yn unol ag arfer orau y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Mae staff wedi derbyn hyfforddiant GWRTH-DERFYSGAETH PREVENT ar ddiogelu disgyblion rhag cael eu radicaleiddio (Gorffennaf 2016) ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i adrodd ar unrhyw amheuan. Fe adnawyddwyd yr hyfforddiant ym Mai 2020.
- Mae staff dros dro, staff sy'n newydd i'r ysgol, darpar athrawon ac athrawon newydd gymhwyso yn derbyn hyfforddiant gan y staff dynodedig ar gamau diogelu yn yr ysgol. Maent hefyd yn derbyn copi o Bolisi Amddiffyn Plant yr ysgol ynghyd a chanllaw y sir i staff ynghylch amddiffyn plant.
- Mae'r staff dynodedig wedi derbyn hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaeth, ac fe adnewyddir hyn yn unol ag arfer orau y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

A yw'r ysgol wedi rhoi gwybod i rieni am y polisi a'r gweithdrefnau, ac am yr angen i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill os oes angen? A yw'r ysgol wedi rhoi gwybod i ddysgwyr beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon?

Tystiolaeth

- Mae copi o'r Polisi Amddiffyn Plant ar gael i rieni, fel pob polisi arall.
- Pan yn addas, mae'r athrawon dynodedig yn trafod unrhyw gyfeiriadau gyda'r rhieni cyn eu gwneud, yn ogystal â thrafod yr angen i rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill os yn briodol.
- Mae dysgwyr yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd os oes ganddyn nhw neu ffrindiau bryderon. Fe rennir hyn â dysgwyr fel arfer gan athrawon yr ysgol pan yn briodol ee. ar ddechrau blwyddyn.
- Mae gwasanaeth cwnsela yn cael ei gynnig o fewn yr ysgol gan asiantaeth Exchange. Fe rennir unrhyw achosion o ddiogelu plant gan yr athrawon dynodedig.

Rhowch fanylion unrhyw bolisi gwrth-fwlïo sy'n cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010, a sut mae'r ysgol yn delio ag unrhyw gŵynion gan ddisgyblion neu rieni yn deillio o ddigwyddiadau o'r fath.

Tystiolaeth

- Ni dderbynir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol ar unrhyw adeg.
- Mae Polisi Gwrth-Fwlio yr ysgol yn darparu gwybodaeth am sut y mae'r ysgol yn delio gyda bwlio.
- Bydd Swyddog Bugeiliol / Ymddygiadol yr ysgol (BT) fel arfer yn ymchwilio i honiadau o fwlio gan ddisgyblion a rennir gan ddisgyblion / rhieni, ac yn adrodd ar y canlyniadau.
- Mae gweithdrefn arferion adferol yr ysgol yn dangos yn glir sut y gellir delio gyda datrys gwrthdaro.
- Fe gymerir camau pendant a phwrpasol i ddelio gydag unrhyw achosion o fwlio, yng ngoleuni Côt Disgyblaeth yr ysgol.
- Fe atgyfnerthir y neges o barch at bawb ("Gorau Byw, Cyd-Fyw": arwyddiar yr ysgol) yng nghymuned yr ysgol ac yn ehangach, pa bynnag beth yw credoau, hil, rhywioldeb a diddordebau pobl drwy gyfrwng sesiynau 'Munud i feddwl', sgysiau sydyn a sesiynau ABCh, ac yn gyffredinol ar draws yr ysgol.
- Fel arfer mae'r ysgol yn dathlu'r Wythnos Gwrth Fwlio Genedlaethol ym mis Tachwedd pryd ceir ffocws arbennig ar fwlio a sut i'w wrthsefyll mewn gwasanaethau.

Rhowch fanylion ynghylch sut mae'r ysgol yn sicrhau diogeledd safle'r ysgol?

Tystiolaeth

- Mae ffens 6 troedfedd yn amgylchynu tir yr ysgol
- Mae system rheoli mynediad i'r safle drwy'r mynedfeydd gwahanol yn bodoli yn ystod y dydd. Yn rhan o hwn, y mae system bendant o ymadael â safle'r ysgol yn weithredol ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
- Mae system ddiogelwch yn weithredol er mwyn cael mynediad i Ganolfan y Chweched Dosbarth gyda gatiâu yn cael eu hagor am gyfnod byr a'u cloi yn awtomatig, a thrwy mewnbynnu côd arbennig
- Mae system yn bodoli sydd yn gorfodi ymwelwyr i geisio mynediad i'r ysgol drwy fodd un brif fynedfa. Fe gyfeirir ymwelwyr i'r swyddfa gan yr arwyddion ar y ffordd i mewn.
- Mae'n rhaid i bob ymwelydd lofnodi mewn yn y swyddfa a derbyn bathodyn ymweliad.
- Mae system o gamerau diogelwch yn weithredol mewn nifer o ardaloedd allweddol ar safle'r ysgol.
- Mae athrawon a goruchwylwyr cinio ar ddyletswydd yn ystod cyfnodau egwyl a chinio.
- Mae staff yr ysgol yn gwisgo bathodynau adnabod - sydd yn dynodi eu henwau a'u swyddi, ac yn dangos ffotograff ohonynt - ac felly mae hyn yn arwydd clir eu bod yn gweithio yn yr ysgol.
- Mae yna arolygon cyson lechyd a Diogelwch o safle'r ysgol gan dîm yr ysgol, gyda chamau gweithredu yn cael eu rhoi yn eu lle os oes unrhyw faterion perthnasol.
- Mae polisi cloi lawr gan yr ysgol mewn sefyllfa o argyfwng difrifol a chynhaliwyd ymarfer cloi lawr i ymgyfarwyddo staff a disgyblion â'r weithdrefn.
- Mae ymweliadau cyson gan yr Awdurdod Lleol i drafod unrhyw faterion perthnasol.

Rhowch fanylion am y polisi iechyd a diogelwch. Disgrifiwch sut mae'r ysgol yn delio â chymorth cyntaf, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau, addysg rhyw a pherthynas, ymweliadau addysgol, diogelwch y rhyngrwyd ac, os yw'n briodol, lles dysgwyr ar leoliadau galwedigaethol estynedig.

Tystiolaeth

- Mae polisi lechyd a Diogelwch yr ysgol yn gosod canllawiau clir am feysydd cysylltiedig.
- Mae staff dynodedig wedi'u hyfforddi ar gyfer lechyd a Diogelwch yn y gweithle.
- Mae staff dynodedig wedi'u hyfforddi ar gyfer Cymorth Cyntaf yn y gweithle.
- Mae gennym Bolisi Cyffuriau ac rydym yn darparu cefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau.
- Rydym yn delio'n gadarn gyda digwyddiadau o ddelio mewn neu werthu cyffuriau ar y safle.
- Mae sesiynau ar ymwybyddiaeth o effeithiau defnydd cyffuriau yn flaenllaw ar y rhaglen ABCh ym mhob CA. Rydym yn defnyddio arbenigwyr o'r heddlu i ddarparu nifer o'r sesiynau yma.
- Mae tîm sy'n addysgu'r thema "lechyd a Pherthnasoedd" yn rhan o wersi ABCh yr ysgol a gwersi "lechyd" yn CA3, ynghyd â rhai arbenigwyr ee. asiantaeth "Infonation", yn addysgu addysg rhyw ym mhob CA.
- Rydym yn dilyn polisi'r All, a'r gweithdrefn EVOLVE felly, ar gyfer ymweliadau o ran y camau paratoi, adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau a gwerthuso ymweliadau addysgiadol.
- Mae datganiad yr ysgol ar ddiogelwch ar y rhynggrwyd yn gosod canllawiau clir am yr agweddau yma. Fe ddarperir sesiynau diogelwch ar y rhynggrwyd i ddisgyblion drwy'r rhaglen ABCh gan Bennaeth TG yr ysgol, Gareth Edmondson.
- Mae'r Pennaeth Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb dros y maes galwedigaethol, Mary Moses, yn sicrhau asesiadau risg gan darparwyr allanol ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gwersi oddi ar y safle

Rhowch fanylion ynghylch sut mae'r ysgol yn delio â difriö, gwahaniaethu ac aflonyddu hiliol, a sut mae'n delio ag unrhyw gwynion gan ddisgyblion neu rieni yn deillio o ddigwyddiadau o'r fath.

Tystiolaeth

- Mae manylion am agweddau'r ysgol, tuag at ddifriö, gwahaniaethau ac aflonyddu hiliol i'w gweld mewn amryw o bolisiau ee. Polisi Cynhwysiant a Chydraddoldeb.
- Fe gynhelir proses o ymchwiliad manwl i unrhyw ddigwyddiad hiliol gyda adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol yn cael eu danfon i'r ALL.
- Fe gymerir camau perthnasol i ddelio â digwyddiadau yn y maes hwn gyda goblygiadau clir a phendant yn unol a'n Cöd Disgyblaeth.
- Fe gynhelir gylch / gynhadledd adferol er mwyn datrys ac adfer y gwrthdaro ac i wneud i fyny am y niwed a achosir.
- Fe adroddir unrhyw ddigwyddiadau hiliol difrifol i'r ALL.

Rhowch fanylion am bolisiau'r ysgol ar ymyrraeth ac atal corfforol, a sut mae'r ysgol yn delio ag unrhyw gwynion gan ddisgyblion neu rieni yn deillio o ddigwyddiadau o'r fath.

Tystiolaeth

- Ni anogir staff yr ysgol i ymyrryd ac atal yn gorfforol oni bai eu bod wedi derbyn hyfforddiant.
- Fe ddefnyddir ymyrraeth ac atal corfforol, yn dilyn ymdrech i ymyrryd ar lafar, a ble y gwelir taw dyma'r unig ffordd i dawelu sefyllfa bregus.
- Am fanylion llawn gwelir polisi'r ysgol ar ddefnydd o rym gan staff i reoli neu atal disgyblion.

Rhowch fanylion am sut yr adroddir am ddigwyddiadau diogelu o fewn strwythur rheoli'r ysgol, gan gynnwys cyfarfodydd llywodraethwyr.

Tystiolaeth

- Adroddir gan yr Uwch Athro Dynodedig (neu'i ddirprwy) am ddigwyddiadau diogelu difrifol bob tro i'r Pennaeth, ac ar adegau, os fydd hynny yn llesol i gynnydd y disgybl yn yr ysgol, i aelodau o'r staff sy'n gysylltiedig â'r disgybl ee. Pennaeth Dysgu a Chynnydd.
- Ar adegau, pan fydd gofid o ran diogelwch disgybl yn dod i'r amlwg, bydd yr Uwch Athro Dynodedig (neu'i ddirprwy) yn dewis rhannu'r wybodaeth gydag aelod o staff sydd â diddordeb yn lles y disgybl ee. Tiwtor Dosbarth, er mwyn monitro'r sefyllfa.
- Adroddir, fel arfer gan yr Uwch Athro Dynodedig, yn flynyddol i'r Corff Llywodraethol am effeithiolrwydd gweithdrefn diogelu'r ysgol, gan gynnwys ffeithiau megis nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodiadau ychwanegol a ddarparwyd gan yr ysgol

Yn seiliedig ar brofiad a thystiolaeth, credwn fod gweithdrefn diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol yn gadarn a chryf. Ni themlwn fod angen gwelliant arwyddocaol yn yr ardaloedd yr ymholir amdanynt.

Rheoli fersiwn

Pennaeth: Dafydd Jenkins
Llofnod: D. Jenkins, Rh Evans **Enw:** Rh Evans, Uwch Athro Dynodedig
Dyddiad: Hydref 2019
 Cadeirydd y Llywodraethwyr Aldyth Williams
Llofnod: A. Williams **Enw:** Aldyth Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr
Dyddiad: Hydref 2020

Dogfen fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Newidiadau a wnaed
1.0	Gerard E Kerslake AEM	10 Mai 2013	Diweddariad i'r offeryn hunanasesu a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer ysgolion, i adlewyrchu newidiadau yn deillio o Ddeddf Rhyddidau 2012.

			Bydd rhagor o newidiadau yn cael eu gwneud i'r ddogfen hon wrth i'r Ddeddf gael ei chyflwyno.
--	--	--	---